

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**16/07/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus  
Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
  
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau  
Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery**

**Forecast Expenditure and Actual  
Expenditure**

**Rhagolygon Gwariant a Gwariant  
Gwirioneddol**

**Q10 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on the comparison between forecast expenditure and actual expenditure in the Assembly Government's budget? OAQ(3)0414(FPS)

**C10 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gymhariaeth rhwng rhagolygon gwariant a gwariant gwirioneddol yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad? OAQ(3)0414(FPS)

**The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies):** The Assembly Government has an excellent record on budget management, with final expenditure regularly within 1 per cent of our total budget. The Assembly Government has an excellent record of consistently delivering expenditure at around 99 per cent of our departmental expenditure limit—a level that is better than most Government departments and devolved administrations. I intend to continue that record. We have robust systems in place for monitoring expenditure, which have been enhanced with the introduction in April of a leading edge enterprise resource planning system.

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad record ardderchog yn rheoli ei chyllideb, gyda'r gwariant terfynol yn rheolaidd o fewn 1 y cant i gyfanswm y gyllideb. Hefyd, mae gan Lywodraeth y Cynulliad record ardderchog o sicrhau bod ei gwariant tua 99 y cant o'r terfyn gwariant adrannol—lefel well na lefel y rhan fwyaf o adrannau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Yr wyf yn bwriadu cynnal y record hon. Mae gennym systemau cadarn er mwyn monitro gwariant, ac mae'r rhain yn well fyth ers mis Ebrill, pryd y cyflwynwyd system cynllunio adnoddau menter flaengar.

**Social Justice and Local Government  
Portfolio**

**Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol a  
Llywodraeth Leol**

**Q11 Nick Ramsay:** What discussions has the Minister had in relation to the overall

**C11 Nick Ramsay:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y dyraniad

allocation of funding for the social justice and local government portfolio?  
OAQ(3)0433(FPS)

**Andrew Davies:** I have regular meetings with the Minister for Social Justice and Local Government to discuss budget and expenditure matters.

#### **Additional Funding for the Foundation Phase**

**Q12 Kirsty Williams:** What representations has the Minister received from the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills regarding the provision of additional funding specifically for the foundation phase? OAQ(3)0402(FPS)

**Andrew Davies:** I have regular discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to discuss budget and expenditure matters.

#### **Local Service Boards**

**Q13 David Melding:** Will the Minister make a statement on the role of local service boards in Wales? OAQ(3)0406(FPS)

**Andrew Davies:** Local service boards enable existing public service bodies and partnerships to work together much more effectively, integrate public service delivery, achieve better outcomes for citizens and resolve service delivery issues that require focused attention from the local service leadership team.

#### **The Wales Spatial Plan**

**Q14 Irene James:** Will the Minister make a statement on the development of the 'South East Wales—the Capital Network' section of the Wales spatial plan? OAQ(3)0432(FPS)

**Andrew Davies:** As lead spatial plan Minister for south-east Wales, I will oversee and ensure delivery of an internationally

cyffredinol o gyllid ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol?  
OAQ(3)0433(FPS)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i drafod materion sy'n ymwneud â chyllideb a gwariant.

#### **Cyllid Ychwanegol yn Arbennig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen**

**C12 Kirsty Williams:** Pa sylwadau mae'r Gweinidog wedi'u cael gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch darparu cyllid ychwanegol yn arbennig ar gyfer y cyfnod sylfaen? OAQ(3)0402(FPS)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i drafod materion yn ymwneud a chyllideb a gwariant.

#### **Byrddau Gwasanaethau Lleol**

**C13 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth byrddau gwasanaethau lleol yng Nghymru? OAQ(3)0406(FPS)

**Andrew Davies:** Mae byrddau gwasanaethau lleol yn galluogi cyrff a phartneriaethau presennol ein gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio mewn modd llawer mwy effeithiol, integreiddio'r broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a datrys materion yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau sy'n galw am sylw llawn tîm arweinwyr y gwasanaethau lleol.

#### **Cynllun Gofodol Cymru**

**C14 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu adran 'Y De Ddwyrain—Rhwydwaith y Brifddinas' yng nghynllun gofodol Cymru? OAQ(3)0432(FPS)

**Andrew Davies:** Fel Gweinidog arweiniol y cynllun gofodol ar gyfer y de-ddwyrain, byddaf yn goruchwylio ac yn sicrhau

competitive, networked city region. Continued strong partnership working, cross-cutting and cross-boundary in nature, will be key to achieving our common goals. The spatial plan mechanism will focus all our resources to best effect.

cyflwyno'r broses o gyflawni rhanbarth dinas rhwydweithiol sy'n gallu cystadlu ar lefel ryngwladol. Bydd parhau i weithio mewn partneriaethau cadarn, sy'n drawsbynciol ac yn croesi ffiniau, yn allweddol er mwyn cyflawni ein nodau cyffredin. Bydd dulliau'r cynllun gofodol yn sicrhau bod ein holl adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl.

### **Cronfa Buddsoddi Cyfalaf**

### **Capital Investment Fund**

**Q15 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gronfa buddsoddi cyfalaf? OAQ(3)0408(FPS)

**Q15 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on the capital investment fund? OAQ(3)0408(FPS)

**Andrew Davies:** The strategic capital investment framework is supported by a fund of £400 million in total for the period 2008-09 to 2010-11. Assembly Government departments are developing candidate projects based on robust business cases. I anticipate making announcements on funding for specific projects in the autumn.

**Andrew Davies:** Mae'r fframwaith buddsoddi cyfalaf strategol yn cael cymorth gan gronfa sy'n werth £400 miliwn ar gyfer y cyfnod 2008-09 i 2010-11. Mae adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu prosiectau i ymgeiswyr yn seiliedig ar achosion busnes cadarn. Yr wyf yn rhagweld y byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion am y cyllid a fydd ar gael i brosiectau penodol yn yr hydref.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

### **Capital Expenditure**

### **Gwariant Cyfalaf**

**Q10 Alun Davies:** Will the Minister detail the amount of capital expenditure by her department on new and existing schools in each of the last five years? OAQ(3)0547(CEL)

**C10 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion swm y gwariant cyfalaf gan ei hadran ar ysgolion newydd a phresennol ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf? OAQ(3)0547(CEL)

**The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):** During the last Assembly period, 2004-05 to 2007-08, the Welsh Assembly Government will have provided £667 million for school buildings in Wales. Total local authority capital expenditure on education for 2004-05 to 2006-07, to include all Assembly specific grants, is £490.6 million. Forecast education capital expenditure for 2007-08 is £188.453 million.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Yn ystod y cyfnod 2004-05 i 2007-08 cafodd £667 miliwn ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w wario ar adeiladau ysgolion yng Nghymru. Cyfanswm gwariant cyfalaf ar addysg yr awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod 2004-05 i 2006-07, gan gynnwys grantiau penodol y Cynulliad, yw £490.6 miliwn. Y rhagolwg gwariant cyfalaf ar addysg yn ystod y cyfnod 2007-08 yw £188.453 miliwn.

### **Learning Support Assistants**

### **Cynorthwyr Cymorth Dysgu**

**Q11 Alun Cairns:** Will the Minister make a

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog

statement on the use of learning support assistants in Welsh schools? OAQ(3)0542(CEL)

**Jane Hutt:** Latest published statistics, 'Schools in Wales: General Statistics 2007', show that in 2006-07 there were a total of 11,005 full-time equivalent teaching assistants in maintained schools across Wales.

### Post-16 Education

**Q12 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on the provision of post-16 education in Wales? OAQ(3)0554(CEL)

**The Deputy Minister for Skills (John Griffiths):** 'Skills That Work for Wales' was announced in Plenary on 8 July and published yesterday. This sets our agenda for revitalising post-16 education. We will offer a wider range of learning experiences and enhanced support and guidance, to encourage more young people to continue learning beyond the age of 16.

### Roll out of the Foundation Phase

**Q13 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the roll out of the foundation phase? OAQ(3)0528(CEL)

**Jane Hutt:** In my written statement on 9 June I set out the latest position. This reaffirmed that an additional £5 million is available this year, that I remain committed to the 1:8 and 1:15 ratios, and that roll-out will be over four years, starting with 3 to 4-year-olds from September.

### Cynyddu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

**C14 Alun Ffred Jones:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda sefydliadau addysg uwch Cymru ynglŷn â chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? OAQ(3)0533(CEL)

**Jane Hutt:** Cefais gyfarfod ag is-gangellorion ar 26 Mehefin a thrafod rhoi

ddatganiad am ddefnyddio cynorthwywyr cymorth dysgu yn ysgolion Cymru? OAQ(3)0542(CEL)

**Jane Hutt:** Mae'r ystadegau diweddaraf i gael eu cyhoeddi, 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2007', yn dangos bod cyfanswm o 11,005 o gynorthwy-wyr addysgu cyfwerth ag amser llawn mewn ysgolion a gynhelir ledled Cymru yn 2006-07.

### Addysg ôl-16

**C12 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg ôl-16 yng Nghymru? OAQ(3)0554(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Crybwyllwyd 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf ac fe'i cyhoeddwyd ddoe. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hagenda ar gyfer adnewyddu addysg ôl 16. Byddwn yn cynnig amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu a rhagor o gymorth ac arweiniad er mwyn annog rhagor o bobl ifanc i barhau i ddysgu wedi iddynt droi'n 16.

### Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno'r cyfnod sylfaen? OAQ(3)0528(CEL)

**Jane Hutt:** Nodais y sefyllfa ddiweddaraf yn fy natganiad ysgrifenedig ar 9 Mehefin. Yr oedd y datganiad hwn yn cadarnhau bod £5 miliwn yn rhagor ar gael eleni, fy mod yn dal wedi ymrwymo i'r cymarebau 1:8 ac 1:15, ac y bydd y fenter yn cael ei chyflwyno'n raddol dros bedair mlynedd, gan ddechrau â'r rhai 3 i 4 mlwydd oed ym mis Medi.

### Increasing Welsh-medium Provision

**Q14 Alun Ffred Jones:** What discussions has the Minister had with higher education institutions in Wales with regard to increasing Welsh-medium provision? OAQ(3)0533(CEL)

**Jane Hutt:** I met vice-chancellors on 26 June in a discussion that included consideration of

ystyriaeth i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddaf hefyd yn cwrdd â'r Athro Robin Williams, cadeirydd y grŵp sector addysg bellach cyfrwng Cymraeg, yn ddiweddarach yn ystod y mis i drafod yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma ac i ystyried camau nesaf y datblygiad.

### **Vocational Education**

**Q15 Nick Bourne:** Will the Minister make a statement on the provision of vocational education in Wales? OAQ(3)0511(CEL)

**Jane Hutt:** 'Skills That Work for Wales', which was announced in Plenary on 8 July, was published yesterday. This strategy sets our agenda for skills, including vocational education. We will deliver improvements and developments in key areas, including apprenticeships, employment-related foundation degrees, and 14-19 learning pathways.

Welsh-medium provision. I will also be meeting with the chair of the Welsh-medium higher education sector group, Professor Robin Williams, later this month to discuss achievements to date and to consider the next stages of development.

### **Addysg Galwedigaethol**

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg alwedigaethol yng Nghymru? OAQ(3)0511(CEL)

**Jane Hutt:** Cafodd strategaeth 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', y cafwyd cyhoeddiad yn ei chylch yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf, ei chyhoeddi ddoe. Mae'r strategaeth hon yn trafod manylion ein hagenda ar gyfer sgiliau, gan gynnwys addysg alwedigaethol. Byddwn yn cyflwyno gwelliannau a datblygiadau mewn meysydd allweddol, gan gynnwys prentisiaethau, graddau sylfaen sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, a llwybrau dysgu 14-19.